Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Safon UG Estynedig

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Llywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diben y Rhaglen ..... 3
3. Trosolwg o Ddarparu ..... 3
4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr ..... 3
5. Cynnwys y Rhaglen ..... 4
6. Gofynion Cyflwyno Data ..... 5
   - Codau'r Rhaglenni ..... 5
   - Model Cyllido ..... 5
7. Monitro ac Archwilio ..... 5
   - Dull Monitro ..... 6
   - Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen ..... 6
   - Deilliannau Dysgu ..... 6
   - Profion Archwilio ..... 6
8. Manylion Cyswllt ..... 6

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu'r Rhaglen Safon UG Estynedig. Mae'n darparu trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra ac amodau mynediad ar gyfer dysgwyr; ac yn manylu ar y gofynion cyflwyno data i alluogi Medr i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a'r deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Safon UG Estynedig.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng Sefydliadau a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido Rhaglenni Dysgu Estynedig. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth o ran y Rhaglen Safon UG Estynedig yn ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Mae pedair rhaglen astudio ar gael ar hyn o bryd, pob un ohonynt ar lefel 3.

## 2. Diben y Rhaglen

Rhaglen un flwyddyn yw'r Rhaglen Safon UG Estynedig, a ddatblygwyd i wella'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan ddysgwyr sy'n gwneud Safon UG, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw ac yn camu ymlaen i Safon Uwch.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Dylai pob rhaglen gael ei darparu ar sail amser llawn.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer pob rhaglen ddysgu. Ni ddisgwylir i Golegau ddarparu'r union nifer o oriau ar gyfer pob maes ond mae hyn yn rhoi canllaw cyffredinol. Fodd bynnag, disgwylir i gyfanswm yr oriau darparu fod o fewn goddefiant rhesymol[1] i'r oriau a gyllidir.

| Disgrifiad o'r Rhaglen | Sefydlu | Prif Gymhwyster | CLIF | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen UG Estynedig (3 UG) | 15 | 405 | 145 | 565 |
| Rhaglen UG Estynedig (3 UG gyda CBC) | 15 | 540 | 145 | 700 |
| Rhaglen UG Estynedig (4+ UG) | 15 | 540 | 145 | 700 |
| Rhaglen UG Estynedig (4+ UG gyda CBC) | 15 | 675 | 145 | 835 |

## 4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr

I fod yn gymwys i gael mynediad i'r rhaglen rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu drosodd ar 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau.

[1] At ddibenion archwilio ystyrir mai 10% yw goddefiant rhesymol.

Sylwer bod Medr hefyd yn disgwyl i flaenoriaeth gael ei rhoi, yn y lle cyntaf, i'r dysgwyr hynny sy'n 16 i 18 oed ar y 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau[2].

Bydd y gofynion lleiaf canlynol yn berthnasol ar gyfer yr holl newydd-ddyfodiaid i'r Rhaglen Safon UG Estynedig:

- isafswm o 5 TGAU gradd C neu uwch,
- rhaid ennill o leiaf un radd C mewn:

  naill ai

  - TGAU Mathemateg / TGAU Mathemateg Rhifedd neu
  - TGAU Saesneg / TGAU Cymraeg Iaith (Gyntaf)

Rhaid i ddysgwyr hefyd:

- wneud naill ai 3 neu 4 Safon UG; a
- bod yn wynebu risg o beidio â chamu ymlaen at y Safon Uwch.

Efallai y bydd ar golegau eisiau pennu meini prawf cymhwystra uwch os yw profiad blaenorol yn awgrymu cwblhau a bod gofynion deilliant llwyddiannus yn fwy na'r isafswm a nodir yn y ddogfen hon.

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Yn unol â'r gofynion a nodir yn y *Fframwaith Cyllido Ôl-16 – Canllaw a Chyfeiriadur Rhaglenni*[3], rhaid i bob rhaglen ddilyn yr un strwythur sylfaenol â rhaglenni addysg gyffredinol amser llawn eraill, sef:

- Prif Gymhwyster/Gymwysterau; a
- Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant (CLIF).

Mae'r oriau dysgu ychwanegol, o'i gymharu â'r Rhaglenni Safon UG nad ydynt yn estynedig, yn gorfod bod â ffocws ar o leiaf un o'r meysydd canlynol:

- gwella gwybodaeth a sgiliau rhifiadol ar gyfer pynciau STEM (e.e. Mathemateg i Gemegwyr);
- gwella sgiliau llythrennedd ar gyfer pynciau STEM (e.e. datblygu dealltwriaeth ac ysgrifennu estynedig);
- gwella arfer llafar a gramadeg ar gyfer Ieithoedd;
- gwella gwybodaeth wyddonol ar gyfer Addysg Gorfforol / Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- cyfranogi mewn gweithdai Sgiliau Ymchwil i gefnogi'r tri phrosiect yng nghymwysterau newydd Bagloriaeth Sgiliau Cymru a Chymwysterau Project Estynedig (CPE)
- cyfranogi mewn gweithdai Menter a Chyflogadwyedd (e.e. sesiynau 'parod ar gyfer gyrfa', anogwr gyrfa, sesiynau menter);
- paratoi ar gyfer arholiadau a chyfweliadau mynediad i Brifysgol;
- paratoi ar gyfer cystadlaethau sgiliau, Olympiadau, Her Mathemateg.

[2] Ystyrir bod dysgwr yn 18 oed tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae eu pedwerydd pen-blwydd ar bymtheg yn digwydd ynddi. Mae'r diffiniad hwn yn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer dysgwr 16 i 18 oed yn newid yn ystod rhaglen unigolyn os yw'r dysgwr yn troi'n 19 oed yn ystod blwyddyn academaidd.
[3] Gweler Cyllid i ddarparwyr.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) / y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer y Rhaglen Safon UG Estynedig.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[4] a Nodiadau Cwblhau Technegol CYBLD[5] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Codau'r Rhaglenni*

Dylid defnyddio'r codau rhaglenni canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar y Rhaglenni Safon UG Estynedig:

| | |
|---|---|
| 0013I03B | Rhaglen UG Estynedig (3 UG) |
| 0014I03B | Rhaglen UG Estynedig (3 UG gyda CBC) |
| 0014J03B | Rhaglen UG Estynedig (4+ UG) |
| 0015I03B | Rhaglen UG Estynedig (4+ AS UG gyda CBC) |

### *Model Cyllido*

Gall cyllid llawn ar gyfer y Rhaglen Safon UG Estynedig[6] gael ei dynnu i lawr gan y Sefydliadau Addysg Bellach hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm pob carfan berthnasol fel a ganlyn:

| Disgrifiad o'r Cyllid | Cydrannau'r Carfannau (yn unol â Chodau LP74) | Cyfradd Uwch (10%) | Cyfradd Sylfaenol (90%) |
|---|---|---|---|
| 3 Safon UG | 0013A03B, 0013B03B a 0013I03B | 0013I03B | 0013A03B a 0013B03B |
| 3 Safon UG gyda CBC | 0014C03B, 0014D03B a 0014I03B | 0014I03B | 0014C03B a 0014D03B |
| 4+ Safon UG | 0014A03B, 0014B03B a 0014J03B | 0014J03B | 0014A03B a 0014B03B |
| 4+ Safon UG gyda CBC | 0015C03B, 0015D03B a 0015I03B | 0015I03B | 0015C03B a 0015D03B |

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

[4] Gweler Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR).
[5] Gweler Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD).
[6] Mae'r gwerthoedd i'w cael yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16 – Canllaw a Chyfeiriadur Rhaglenni.

### *Dull Monitro*

Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
- deilliannau dysgu ar gyfer y rhaglen.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglenni Estynedig.

### *Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen*

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR / CYBLD i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r data o setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu'r rhaglen yn cael eu hateb yn llawn.

### *Deilliannau Dysgu*

Mae cyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

Disgwylir y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Safon UG Estynedig yn llwyddiannus yn camu ymlaen i Raglenni Safon Uwch amser llawn.

### *Profion Archwilio*

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan y sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[7]. O fewn hyn, bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud y Rhaglenni Estynedig yn briodol.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch negeseuon e-bost canlynol: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[7] Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**